SALTER DAVIES, ERNEST (1872 - 1955), addysgydd

Enw: Ernest Salter Davies
Dyddiad geni: 1872
Dyddiad marw: 1955
Priod: Evelyn May Salter Davies (née Lile)
Rhiant: Emma Rebecca Davies
Rhiant: Thomas Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: addysgydd
Maes gweithgaredd: Addysg
Awdur: Mary Auronwy James

Ganwyd 25 Hydref 1872 yn fab i Thomas Davies, gweinidog (B) a llywydd Coleg y Bedyddwyr, a'i wraig Emma Rebecca, Hwlffordd, Penfro. Mynychodd ysgol ramadeg Hwlffordd, a Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a chael ysgoloriaeth yn y clasuron i Goleg Iesu, Rhydychen. Am gyfnod maith bu'n drefnydd ac arweinydd blaenllaw ym myd addysg yn Lloegr. Cychwynnodd ar ei yrfa fel athro yn Academi Glasgow, 1895-96, ac wedyn bu yn ysgol ramadeg Cheltenham nes cael ei benodi'n arolygwr addysg uwch yn swydd Caint yn 1904 a'i ddychafu'n gyfarwyddwr addysg y sir honno yn 1918, swydd a lanwodd gydag anrhydedd hyd nes iddo ymddeol yn 1938. At hyn, bu'n gynghorydd addysg i'r fyddin yn 1918 a charchar Maidstone o 1923 hyd 1938 ac etholwyd ef yn llywydd nifer o gymdeithasau addysg a llyfrgelloedd. Cydnabuwyd ei wasanaeth trwy ei wneud yn C.B.E. yn 1932 a derbyniodd M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Adelaide yn 1937.

Hyd yn oed wedi iddo ymddeol yn swyddogol parhaodd i fod yn weithgar a dylanwadol ym myd addysg. Gwasanaethodd fel aelod o'r pwyllgor ar Addysg Amaethyddol Uwch i'r Weinyddiaeth Amaeth yn 1940 ac ar Gyngor Canolog Darlledu i Ysgolion hyd 1948, gan fod yn gadeirydd ei Bwyllgor Ysgolion Gwledig. Bu'n gadeirydd llawer o gyrff eraill gan gynnwys Ymddiriedolaeth Carnegie yn y Deyrnas Unedig (1946-51), y bu'n ymddiriedolwr oes iddi er 1924.

Ymhlith ei gyhoeddiadau ceir *The Aim of Education* (National Adult School Union); *The Reorganisation of Education in England* (New Education Fellowship); *Education for Industry and for Life*; *Technical Education* (The Schools of England), a golygodd *Kenilworth* a *The Fortunes of Nigel* gan Scott ar gyfer ysgolion. Fel golygydd y *Journal of Education*, cynhaliodd enw da'r papur hwnnw o 1939 hyd o fewn ychydig fisoedd i'w farwolaeth yn 83 mlwydd oed.

Priododd, 1900, Evelyn May Lile (marw 1951) o Ddinbych-y-pysgod a bu iddynt ddau fab. Bu farw 10 Mehefin 1955 yn ei gartref yn 13 Chichester Road, East Croydon, Surrey.

Awdur

Dr Mary Auronwy James

Ffynonellau

Who was who?

The Times, 11 Mehefin 1955, 10f

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 94656199

Wikidata: Q5393781

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.